

Gweithgareddau i bawb

Gweithgareddau neu wybodaeth sy'n cynnwys llai o destun a mwy o strwythur. Mae llawer o'r gweithgareddau hyn yn cynnwys symbolau i helpu cyfathrebu. Gall y gweithgareddau yma fod yn addas i blant mewn ysgolion cynradd neu grwpiau cymunedol. Mae'r gweithgareddau wedi'u llunio hefyd i roi rhywfaint o strwythur i gynnal dysgwyr hŷn, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i rai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd hyn yn helpu

cynghorau ysgol a grwpiau cyfranogiad cymunedol eraill



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Gwaith Grŵp

Ffurio grŵp

Os byddwch chi ac eraill yn dod at eich gilydd bydd gennych chi fwy o lais.

Mae hynny'n gwneud creu newid yn haws.

Efallai bod gennych chi grŵp yn barod.

Mae'r cwestiynau yma yn eich helpu i feddwl am sut gallwch chi wneud i'ch grŵp weithio'n dda.

Cwestiynau i feddwl amdany'n nhw




1. Oes angen mwy o bobl? Sut gallwch chi berswadio mwy i ymuno?



2. Pryd a ble gallech chi gwrdd?



3. Beth rydych chi eisiau newid?



4. Pwy allai eich helpu chi?






5. Beth yw enw eich grŵp?

Gwiriad Llesiant

Iach, Hapus, Diogel



Bydd eich grŵp yn gweithio orau os bydd pawb yn hapus. Defnyddiwch y rhestr yma i'ch helpu.

	1. Cefnogaeth. Oes gan eich grŵp oedolyn i'ch cefnogi os bydd angen?
	2. Mewngofnodi. Rhwch gyfle ar ddechrau'r cyfarfod i bawb ddweud sut maen nhw'n teimlo.
	3. Gwranddo. Gallech chi bleidleisio dros benderfyniadau, fel bod pawb yn gallu rhoi barn.
	4. Cofnodi. Gwnewch restr o'r pethau rydych chi'n penderfynu mewn cyfarfodydd.



5. Dathlu. Teimlwch yn falch o’r pethau rydych chi’n cyflawni.
Rhannwch nhw ag eraill trwy arddangosiadau neu gyflwyniadau.

Awgrym Gwych: [Edrychwch ar ein fideos o grwpiau.](#)



Defnyddiwch y cardiau yma i ddewis gweithgaredd.



Creu Poster



Ymgyrch ar-lein



Cân



brotest



Cwrdd â'r bobl sy'n gwneud
penderfyniadau




Dechrau grŵp




Creu baner



Ysgrifennu llythyr



Cychwyn deiseb




Cynnal arolwg



Cerdd



brotest



Cysylltu â'r wasg

Gweithgareddau estynedig

Mae rhain yn defnyddio mwy o destun,
ac yn cynnwys mwy o wybodaeth fanwl a
llai o strwythur cynnal ar gyfer
gweithgareddau. Efallai bydd yr
adnoddau yma'n addas ar gyfer pobl
ifanc mewn lleoliadau ysgol uwchradd,
lleoliadau Addysg Bellach, neu grwpiau
cyfranogiad a grwpiau cymunedol i bobl
ifanc. Byddan nhw'n helpu cyngorau
ysgol uwchradd a grwpiau eraill llais y
disgybl mewn ysgolion uwchradd.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Creu hunaniaeth grŵp

Mae'r gweithgaredd yma yn eich helpu i greu enw a hunaniaeth i'ch grŵp.

Os ydych chi'n defnyddio grŵp sydd gennych chi eisoes, fel grŵp cymunedol neu gyngor ysgol, mae'n dal yn weithgaredd defnyddiol i'ch helpu i benderfynu beth sy'n bwysig i chi.


Adnoddau

Bydd arnoch chi angen:


- Aelodau'r grŵp
- Darn mawr o bapur – gorau po fwyaf (e.e. fflipsiart)
- Peniau lliw
- Dewisol – unrhyw ddeunyddiau creadigol hoffech chi, er enghraifft llathr, sticeri, rhubanau...

Gweithgaredd

1. Rhowch eich darn mawr o bapur yng nghanol y grŵp. Plygwch y ddwy ochr i mewn fel bod yr ymylon yn cwrdd yn y canol. Dyma eich 'cwpwrdd hunaniaeth grŵp'.
2. Ar flaen y 'drysau' nodwch y **negeseuon allweddol** rydych chi eisiau i bobl eraill wybod am eich grŵp. Dewiswch 2 neu 3.
3. Tu mewn i un 'drws' ysgrifennwch sut byddwch chi'n **trefnu** eich grŵp. Meddyliwch am y cwestiynau yma:
 - Pryd byddwch chi'n cwrdd?
 - Ble byddwch chi'n cwrdd?



- Oes angen i chi wahodd unrhyw un i ddod i gefnogi eich cyfarfodydd? Er enghraifft oedolyn cefnogol?
- Sut byddwch chi'n gwahodd neu'n annog pobl eraill i ymuno â'ch grŵp?



4. Tu mewn i'r 'drws' arall ysgrifennwch y **rolau** yn eich grŵp a phwy allai gyflawni nhw. Meddyliwch am y cwestiynau yma:
- Fyddwch chi'n ethol cadeirydd i arwain y cyfarfodydd, neu fyddwch chi'n cymryd eich tro i gadeirio?
 - Fyddai'n well gennych chi beidio â chael cadeirydd o gwbl?
 - Sut byddwch chi'n cofnodi beth sy'n digwydd yn eich cyfarfodydd? Fyddwch chi'n penodi rhywun i wneud cofnod neu'n cymryd eich tro?

5. Tu mewn i'r cwpwrdd (ar y dudalen gefn) ysgrifennwch eich **gwerthoedd allweddol** ar gyfer cydweithio yn y cyfarfodydd a'r tu allan. Efallai hoffech chi ddewis 3-5. Gallai fod yn help i chi feddwl am yr hawliau plant sydd gan bawb yn eich grŵp o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, er enghraifft:
- Yr hawl i fod yn gyfartal heb wynebu camwahaniaethu (Erthygl 2)
 - Yr hawl i roi barn ar benderfyniadau (Erthygl 12)
 - Yr hawl i fynegi eich hunan (Erthygl 13)
 - Yr hawl i gael gwybodaeth (Erthygl 17)

Myfyrio

- Trafodwch bob rhan o gwpwrdd hunaniaeth eich grŵp. Ydych chi eisiau **newid unrhyw beth** rydych chi wedi ei ysgrifennu?
- Ydy **enw eich grŵp** yn adlewyrchu eich hunaniaeth?
- Allech chi greu **neges allweddol** am eich grŵp neu eich ymgyrch?

Estyniad: Addurnwch eich 'cwpwrdd hunaniaeth grŵp' ag unrhyw ddeunyddiau hoffech chi – i adlewyrchu 'personoliaeth' eich grŵp.

Gallwch chi gadw 'cwpwrdd hunaniaeth eich grŵp' a'i arddangos yn eich cyfarfodydd i'ch atgoffa am hunaniaeth a phenderfyniadau eich grŵp.

Amrywiad

Defnyddiwch flwch cardbord a chreu fersiwn 3D

Cysylltiadau Defnyddiol

[Gallwch chi ddefnyddio'r cardiau gweithgareddau yma](#) i benderfynu beth hoffech chi wneud fel grŵp.

Rhestr Wirio Llesiant

Mewngofnodi

Defnyddiwch y rhestr wirio yma ar ddechrau cyfarfodydd neu cyn i chi gychwyn ar y gweithgareddau ymgyrchu.

Dylai mewngofnodi fod yn gryno ac yn rheolaidd. Mae'n ffordd o ddal ati i gyfathrebu a chefnogi eich gilydd.

Defnyddiwch y rhestr wirio mewn parau neu grwpiau bach. Neu gallwch chi drafod pob cwestiwn fel grŵp llawn.

1. Ydy pawb yn cael cyfle i roi eu barn?
2. Pa mor fodlon ydych chi / yw'r grŵp ar ein penderfyniadau?
3. Oes angen mwy o gefnogaeth gan oedolyn rydyn ni'n trystio, fel arweinydd grŵp neu athro?
4. Beth yw ein pryderon am ein gwaith hyd yn hyn?
5. Beth ydych chi'n / ydyn ni'n fwya balch o fod wedi'i gyflawni hyd yma?

Ffordd arall o fewngofnodi

Gwnewch y gêm yma gyda dis. Roliwch y dis ar ddechrau ac ar ddiwedd pob cyfarfod ac atebwch y cwestiwn sydd â'r rhif rydych chi wedi rollo.



Syniadau eraill:

- Dathlwch eich llwyddiannau. Cadwch hysbysfwrdd cyflawniadau neu lyfr sgrap i gofnodi llythyron sy'n dod atoch chi neu eich meddyliau.
- Gallech chi fflimio dyddiadur fideo o'ch cyfarfodydd a'ch gweithgareddau. Neu ar ddiwedd eich ymgyrch gallai pob aelod ddweud beth wnaethon nhw ei fwynhau fwyaf neu beth maen nhw'n fwya balch ohono o ran eich gwaith.
- Darllenwch y gweithgaredd 'cwmwl cefnogi' i ddysgu am ffordd arall o gefnogi eich gilydd. Efallai byddwch chi am weithio gydag arweinydd y grŵp i wneud hyn.

http://www.egino.cymru/resources/agenda_0319/agenda_cymraeg.pdf (tudalen 16)